| | | |
|---|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Plant Sy'n Cael Gofal a Rhai Sy'n Gadael Gofal | |
| **Fersiwn: Version** | 2 | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr<br><br>Staff / Myfyrwyr | |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | AEG Plant Sy'n Cael Gofal a Rhai Sy'n Gadael Gofal |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r<br><br>Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | |
|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:Document Owner:** | Teitl swydd / Job title<br>Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr | |
| **Ymgynghoriad/ Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Y Grŵp Diogelu<br><br>Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /** Date Approved | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu /<br>Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date<br><br>*Grŵp Diogelu 24/10/22* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br>Communications & Culture Committee: | *11/01/23* |
| | Pwyllgorau'r Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Amherthnasol* |

| | | |
|---|---|---|
| | Bwrdd / Board Committees:<br><br>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee<br><br>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / | <br>*Amherthnasol* |

| | | |
|---|---|---|
| | Finance, People & Culture Committee: | *Amherthnasol* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | *Amherthnasol* |
| **Dyddiad Adolygu: Review Date:** | 17/06/2026 | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu Send approved document for Translation using the Translation Request Form



Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

## Tabl Cynnwys

**Polisi Plant Sy'n Cael Gofal a Rhai Sy'n Gadael Gofal**


| | |
|---|---|
| 1. Diben | 2 |
| 2. Cwmpas | 2 |
| 3. Prif Egwyddorion | 3 |
| 4. Cyfrifoldebau | 3/4 |
| 5. Ymgynghoriad/Adolygiad | 4 |
| 6. Deddfwriaeth | 4 |
| 7. Y Gymraeg | 5 |
| 8. Cynhwysiant | 5 |


## Strategaeth / Polisi

### 1. Diben

1.1. Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu addysg o safon i'w holl ddysgwyr. Mae'r ymrwymiad i 'Blant sy'n Cael Gofal' (LAC) a Phlant sy'n 'Gadael Gofal' yn cael ei arwain gan ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau cyfredol gan yr Adran Addysg.

1.2. Y diben yw darparu arweiniad i staff ar sut i gefnogi plant sy'n cael gofal a rhai sy'n gadael gofal gan weithio ar y cyd ag Awdurdodau Addysg Lleol, Timau LAC

a Gadael Gofal.

**2. Cwmpas**

2.1. Mae LAC yn cyfeirio at bobl ifanc a allai fod yn:

2.1.1. **Cael eu Lletya** - Sefydlir trefniant gwirfoddol oherwydd bod y rhiant/rhieni ar goll neu'n methu ymdopi oherwydd salwch. Gall y trefniant hefyd fod yn rhan o gynllun amddiffyn person ifanc a drafodwyd gyda'r teulu. Yn yr amgylchiadau hyn, y rhiant/rhieni sy'n cadw cyfrifoldeb rhiant.



2.1.2. **Mewn Gofal -** Dim ond os bydd Llys wedi gwneud Gorchymyn Gofal y bydd person ifanc yn cael ei roi 'mewn gofal'.Gellir cyhoeddi gorchymyn os credir bod yr unigolyn ifanc yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Fel rheol, bydd gorchymyn gofal yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol ond gellir hefyd ei rannu gyda'r rhieni.

2.1.3. **Ar Remand/Yn y Ddalfa** - os cyhoeddwyd gorchymyn amddiffyn brys: os yw'r unigolyn wedi ei gymryd o'r cartref wrth i'r heddlu ddefnyddio eu grymoedd amddiffyn / gan lys yn gorchymyn Adran Gwasanaethau Plant i letya person ifanc sydd eisoes yn destun gorchymyn goruchwylio oherwydd ymddygiad troseddol. Gall y cyfnod gweithredu fod hyd at chwe mis.

2.1.4. **Gadael Gofal -** pobl ifanc sy'n gadael y system ofal ac sydd wedi bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol am gyfnod o 13 wythnos neu ragor dros eu pen blwydd yn 16 oed, ac sy'n cael eu cefnogi trwy lety â chymorth neu fyw'n annibynnol.

**3. Prif Egwyddorion**

3.1. Gall pobl ifanc LAC neu Rai sy'n Gadael Gofal fod ag un neu ragor o'r heriau canlynol:

3.1.1. hunan-barch isel

3.1.2. safonau addysgol isel oherwydd absenoldeb o'r coleg

3.1.3. perygl o bresenoldeb gwael a gadael y cwrs yn gynnar 3.1.4. oedi mewn datblygiad cymdeithasol/emosiynol/gwybyddol 3.1.5. cael eu bwlio neu eu bod wedi bwlio eraill

3.1.6. materion iechyd meddwl

3.1.7. ychydig o ffrindiau neu ymdeimlad o unigedd 3.1.8. materion ymddygiadol

3.1.9. cysylltiad gwael gydag eraill

3.2. Mae'n bosibl y bydd hyn yn eu gwneud yn agored i niwed o ran gwireddu eu potensial addysgol a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol, ac felly bydd y Coleg yn cymryd pob cam i sicrhau bod cymorth priodol ac ymyriadau wedi'u targedu ar waith ar gyfer dysgwyr dynodedig o'r fath.

## 4. Cyfrifoldebau

4.1. Pan fydd myfyriwr wedi ei nodi yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (LAC) neu'n Berson Ifanc sy'n Gadael Gofal (LC), bydd y Tîm Diogelu'n gweithio gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr perthnasol i sicrhau:

4.1.1. Bod Cynghorydd Gwasanaethau Myfyrwyr neu aelod arall priodol o'r staff yn cael ei bennu fel Mentor i fonitro cynnydd yn wythnosol a chynnig cefnogaeth ar adegau allweddol, gan gysylltu gyda'r Anogwr Cynnydd yn y maes y mae'r unigolyn ifanc yn astudio ynddo. Os nad oes angen ymyriad,



bydd y Cynghorydd yn cyfarfod â'r unigolyn ifanc yn rheolaidd i sicrhau y cyflawnir canlyniad cadarnhaol.

4.1.2. Datblygu Cynllun Addysg Personol (PEP) cadarn mewn partneriaeth â'r Cymhorthydd Dysgu sy'n gyfrifol am y person ifanc.

4.1.3. Dim ond ar sail "yr angen i wybod" y rhennir gwybodaeth am y LAC neu'r LC gyda staff a bod gan yr holl gydweithwyr hynny yn deall yn briodol y materion sy'n effeithio ar y LAC neu'r LC a'r angen am gyfrinachedd.

4.2. Bydd y Swyddog Diogelu yn sicrhau bod aelod o'r tîm yn:

4.2.1.1. sicrhau bod y person ifanc a'r gofalwr/gofalwyr yn cael gwybod yn gynnar am gyfarfodydd coleg e.e.nosweithiau rhieni; 4.2.1.2. sicrhau bod y LAC neu'r LC yn cael gwybod am weithgareddau allgyrsiol a dysgu y tu hwnt i oriau arferol, a'u bod yn cael ei annog i fynd iddynt;

4.2.1.3. sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n briodol rhwng unigolion, asiantaethau perthnasol a cholegau eraill;

4.2.1.4. ceisio cynnal cyfarfodydd gyda phartïon perthnasol pan fydd y person ifanc yn cael anawsterau, yn enwedig os oes perygl y bydd yn cael eu gwahardd am gyfnod penodol/yn barhaol;

4.2.1.5. sefydlu 'tîm' gyda phartïon priodol i sicrhau bod y person ifanc yn cael profiad cadarnhaol a fydd yn arwain at gymwysterau, cyflawni a dilyniant. Bydd y 'tîm' hwn yn cynnwys y Cydlynydd Cymorth Ychwanegol, Yr Anogwr Cynnydd / Tiwtor Personol ac unrhyw asiantaeth allanol sy'n gysylltiedig â'r person ifanc;

4.2.1.6. sicrhau os yw'r LAC neu'r LC "Mewn Perygl" o adael y cwrs yn gynnar oherwydd presenoldeb neu ymddygiad gwael, y byddant yn cael cymorth gan Gynghorydd Gwasanaethau Myfyrwyr mewn cyfarfodydd gyda'r Tiwtor neu Ddirprwy Gyfarwyddwr i drafod problemau;

4.2.1.7. sicrhau bod y dogfennau sy’n ymwneud â’r LAC neu’r LC yn cael eu cwblhau a’u dychwelyd yn brydlon i’r awdurdod goruchwyliol;

4.2.1.8. darparu adroddiadau’n flynyddol i Grŵp Diogelu’r Coleg.

**5. Ymgynghoriad/Adolygiad**

5.1. Bydd y polisi hwn a’r weithdrefn gysylltiedig yn cael eu hadolygu bob 3 blynedd neu ar unwaith yng ngoleuni canllawiau a/neu ddeddfwriaeth newydd sy’n cael eu cyflwyno, a’u cyflwyno i Grŵp Diogelu’r Coleg a Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant y Coleg i’w cymeradwyo. Ymgynghorir â’r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a’r Grŵp Strategol Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru) lle bo’n briodol mewn ymateb i ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol.

**6. Deddfwriaeth**

6.1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 6 Cod Ymarfer



6.2. Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n cael gofal yng Nghymru - Ionawr 2016

6.3. Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

6.4. Deddf Plant 1989 - Adran 22(3)

**7. Y Gymraeg**

7.1. Gall dysgwyr a gofalwyr ddewis defnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg fel sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**8. Cynhwysiant**

8.1. Gofynnir i fyfyrwyr ddarparu manylion am unrhyw anghenion cynhwysiant a all fod ganddynt ar gais gan gynnwys y statws PDG/LC. Mae hyn yn galluogi'r Cydlynydd Diogelu i sefydlu manylion myfyrwyr unigol cyn dechrau yn y coleg, gan sicrhau bod y coleg yn darparu'r cymorth gorau posibl yn gynnar. Dilynir y broses Gynhwysiant ar gyfer pob myfyriwr.